Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 27 November 2024, at 2pm. Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Tim Zhou, Martin O'Neill, and Richard Jarvis

**Officer Present:** Paul Beynon – RFO, Claire Anderson – Events Officer and Ian Hughes – CSO

**Councillors Present (non-committee members) Cllr** Will Thomas

CT2411-01 **Apologies for Absence**
Cllrs Hannah Hunter and Rhian Evans

CT2411-02 **Declarations of Interest**
None

CT2411-03 **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**
To approve the minutes of the meetings held on 23rd October 2024 as a true record.

**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 23rd October 2024 as an accurate record.

CT2411-04 **Update on actions from previous meetings.**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

CT2411-11 **Floral Decorations**

The RFO, Paul Beynon outlined that every year SCC provide two quotes for floral decorations within MCC. On quote of £10,406 includes peat whilst the second quote of £11,521 is peat free. Both quotes include VAT.
A discussion ensued on the merits of both quotes but it was the consensus of the committee that the peat-free option should be recommended.

**RECOMMENDED**; that MCC purchase floral displays using the peat-free option at a cost of £11,521
From the CTC14 - Floral Decorations budget

CT2411-05 **Budget Monitoring Report to 30/09/2024 - RFO, Paul Beynon** Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon who had previously distributed the reports to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting, and no questions were raised at the meeting.

The RFO highlighted key aspects from the reports including areas where potential savings are likely to be made.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 30th September 2024.

CT2411-06 **Budget 2025/26**

The RFO outlined the draft budget spreadsheet to Committee and each budget line was discussed in detail including the new budget proposals.

**RESOLVED** that the draft budget for 2025/26 shown in the table below be recommended to Council at the budget meeting to be held in January 2025 subject to confirmation on the cost of the Baby Loss Awareness budget proposal.

Cllr Will Thomas joined the meeting at 2.25pm

| Item | Amount £ | RFO Auth |
|---|---|---|
| Christmas Motifs | 7,650 | |
| Christmas Trees including Picket Mead | 11,100 | |
| Inspection of Southend Tree | 650 | |
| Community Parties | 3,000 | |
| Coffee with Friends | 2,000 | |
| Story of Mumbles – Digital Archive | 18,000 | |
| Floral Decorations | 9,600 | |
| Newsletter Printing | 1,750 | |
| Newsletter Distribution | 200 | |
| Twinning | 1,000 | |
| St David's Day Event | 750 | |
| Festoon Lighting – Mumbles Road | 1,000 | |
| Warm Hubs | 2.000 | |

Mumbles Community Council

| | | |
|---|---|---|
| Multimedia Consultant | 8,400 | |
| MumblesFest - Expenditure | 29,400 | |
| MumblesFest - Income | -7,900 | |
| VE Day 80 Event | 1,850 | |
| Grow MumblesFest | 10,000 | |
| Improve Mumbles Christmas Lights | 15,000 | |
| Honour of Mumbles | 250 | |
| Baby Loss Awareness Week | 400 | |
| | | |
| **Culture, Tourism and Communications – Draft Budget 2025/26** | **116,100** | |

CT2411-08

**Honour of Mumbles**

Cllr Thomas provided some background to The Honour of Mumbles which included previously one male and one female being selected and being honoured together with members of their family/friends at a formal function.

Cllr Thomas considered as an alternative to have one or two nominees honoured during MumblesFest and being presented with a certificate by the Chair of MCC or the committee. The cost of such an event would be in the region of £250 and could be borne through the virement of funds from an underspent budget.
Cllr Thomas had received feedback from the public that a separate committee should be created from outside MCC to select the nominees. However the view of Cllr Thomas was that Councillors were elected by the whole of the MCC Area for such decisions to be made; this view was supported by the other Councillors.
It was proposed that nominations for the Honour of Mumbles be recommended to Councillors by the public and that nominations who are proposed and seconded by councillors go to Full Council for the final decision to be made on awarding the honour.
A discussion took place on whether the Honour of Mumbles should be expanded to include a 'Freedom of Mumbles' Award but this was rejected for at least the time being.

**RECOMMENDED;** that the public make recommendations for nominees to be considered for The Honour of Mumbles Award. Each nominee will require a proposer and seconder from Councillors to go forward to a Full Council Committee Meeting where either one or two nominees will be awarded The Honour of Mumbles. The award will be presented by the Chair of MCC/Culture Committee during the MumblesFest Festival.

Any financial cost incurred will be covered thorough a future virement from an underspent budget.

Cllr Thomas left the meeting at 2.52pm

CT2411-07 **Essence of Mumbles Update**

Cllr Zhou outlined that the competition will finish this week and in line with last month's resolution a feedback session with Cllr O'Neill will take place once the competition award ceremony is completed.

**RESOLVED:** Cllr Zhou to provide feedback to committee in January 2025 following the awards to competition winners.

CT2411-09 **Baby Loss Awareness**

The Chair, Cllr O'Connor outlined how she had been made aware of baby loss awareness and that arranging for part of the Ostreme to be illuminated during significant periods such as awareness days. Such events could be advertised through Social Media and The MCC Website. The cost should be within £400 with funding being provided through the virement of funds.

**ACTION;** Claire Anderson to seek a quote within seven days for the cost of the illumination.

**RECOMMENDATION:** That a section of The Ostreme Centre be illuminated during significant periods to highlight Baby Loss Awareness.

CT2411-10 **Christmas Events**

Claire Anderson briefly set out events for the Christmas Period as detailed below:-

- **Thursday, Nov 28th** from 4pm onwards – Christmas in Mumbles. Light switch on/road closure
- **Friday, December 6th from 1.30pm -4pm** – Christmas Afternoon Tea at Newton Village Hall
- **Tuesday December 10th,** 12-2pm, Christmas Coffee with Friends
- **Thursday, December 12th**, 1.30-3.30pm Ostreme Centre, Mumbles Christmas Cheer (Oystermouth Community Gathering)
- **Friday, December13th**, 5-7pm - West Cross Community Party, DJ, party food, wreath making etc

- **Friday, December 20th**, 7-10pm West Cross Christmas Quiz

CT2410-12 **Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded for the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

CT2410-13 **MumblesFest 2025 – Closed Session**

Discussion on progress of MumblesFest 2025

**The meeting ended at 3.13pm.**

**Next Meeting on 22 January 2025**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu, Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2024, am 2pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-gadeirydd), Tim Zhou, Martin O'Neill a Richard Jarvis

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Claire Anderson – Swyddog Digwyddiadau, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**Cynghorwyr yn bresennol (aelodau nad ydynt ar y pwyllgor):** Y Cynghorydd Will Thomas

CT2411-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y cynghorwyr Hannah Hunter a Rhian Evans

CT2411-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2411-03 **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2024 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

**Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol**
CT2411-04 Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

CT2411-11 **Addurniadau blodau**

**Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn rhoi dau ddyfynbris bob blwyddyn ar gyfer addurniadau blodau yn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Mae un dyfynbris o £10,406 yn cynnwys mawn tra bod yr ail ddyfynbris o £11,521 yn rhydd o fawn. Mae'r ddau ddyfynbris yn cynnwys TAW.**
**Cafwyd trafodaeth ar rinweddau'r ddau ddyfynbris ond consensws y pwyllgor oedd y dylid argymell yr opsiwn di-fawn.**

**ARGYMHELLWYD: bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn prynu arddangosiadau blodau gan ddefnyddio'r opsiwn di-fawn am gost o £11,521**
**O gyllideb CTC14 – addurniadau blodau**

CT2411-05 **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon** Adroddiadau ynghlwm.

Roedd adroddiadau ariannol wedi'u paratoi gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau ar y gyllideb wedi'u darparu naill ai i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod, ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod.

Tynnodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol sylw at agweddau allweddol o'r adroddiadau, gan gynnwys meysydd lle mae arbedion posibl yn debygol o gael eu gwneud.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2024.

CT2411-06 **Cyllideb 2025/26**

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol daenlen y gyllideb ddrafft i'r pwyllgor a thrafodwyd pob llinell o'r gyllideb yn fanwl, gan gynnwys cynigion newydd y gyllideb.

**PENDERFYNWYD** argymell y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 a ddangosir yn y tabl isod i'r cyngor yn y cyfarfod cyllideb a gynhelir ym mis Ionawr 2025 yn amodol ar gadarnhad ar gost y cynnig yn y gyllideb ar ymwybyddiaeth ynghylch colli babanod.

Ymunodd y Cynghorydd Will Thomas â'r cyfarfod am 2.25pm

| Eitem | Swm £ | Awdurdod wyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol |
|---|---|---|
| Addurniadau'r Nadolig | 7,650 | |
| Coed Nadolig, gan gynnwys Picket Mead | 11,100 | |
| Archwiliad o goeden Southend | 650 | |
| Partïon cymunedol | 3,000 | |
| Coffi gyda ffrindiau | 2,000 | |
| Stori'r Mwmbwls – archif ddigidol | 18,000 | |
| Addurniadau blodau | 9,600 | |
| Argraffu'r cylchlythyr | 1,750 | |
| Dosbarthu'r cylchlythyr | 200 | |
| Gefeillio | 1,000 | |
| Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi | 750 | |
| Goleuadau peli allanol – Heol y Mwmbwls | 1,000 | |
| Canolfannau Clyd | 2,000 | |
| Ymgynghorydd amlgyfrwng | 8,400 | |
| Gŵyl y Mwmbwls – gwariant | 29,400 | |
| Gŵyl y Mwmbwls – incwm | -7,900 | |
| Digwyddiad Diwrnod VE 80 | 1,850 | |
| Tyfu Gŵyl y Mwmbwls | 10,000 | |
| Gwella goleuadau Nadolig y Mwmbwls | 15,000 | |
| Anrhydedd y Mwmbwls | 250 | |
| Wythnos ymwybyddiaeth ynghylch colli babanod | 400 | |
| | | |
| **Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu – Cyllideb Ddrafft 2025/26** | **116,100** | |

CT2411-08 **Anrhydedd y Mwmbwls**

Rhoddodd y Cynghorydd Thomas rywfaint o gefndir i Anrhydedd y Mwmbwls. Yn flaenorol, roedd un dyn ac un fenyw yn cael eu dewis a'u hanrhydeddu ynghyd ag aelodau o'u teulu / ffrindiau mewn digwyddiad ffurfiol.

Awgrymodd y Cynghorydd Thomas ddewis amgen, sef anrhydeddu un neu ddau o enwebeion yn ystod Gŵyl y Mwmbwls a chadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls neu'r pwyllgor i gyflwyno tystysgrif iddynt. Byddai digwyddiad o'r fath yn costio tua £250 a gellid talu amdano drwy drosglwyddo arian o gyllideb sydd wedi tanwario.
Roedd y Cynghorydd Thomas wedi derbyn adborth gan y cyhoedd y dylid creu pwyllgor ar wahân i Gyngor Cymuned y Mwmbwls i ddewis yr enwebeion. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Thomas o'r farn bod y cynghorwyr wedi cael eu hethol

gan holl ardal y cyngor cymuned er mwyn i benderfyniadau o'r fath gael eu gwneud; cefnogwyd y farn hon gan y cynghorwyr eraill.
Cynigiwyd bod enwebiadau ar gyfer Anrhydedd y Mwmbwls yn cael eu hargymell i gynghorwyr gan y cyhoedd a bod enwebiadau a gynigir ac a eiliwyd gan gynghorwyr yn mynd i'r cyngor llawn wneud y penderfyniad terfynol ar ddyfarnu'r anrhydedd.
Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylid ehangu Anrhydedd y Mwmbwls i gynnwys gwobr 'Rhyddfraint y Mwmbwls' ond cafodd hyn ei wrthod am y tro o leiaf.

**ARGYMHELLWYD:** bod y cyhoedd yn argymell enwebeion i'w hystyried ar gyfer Gwobr Anrhydedd y Mwmbwls. Bydd angen i bob enwebai gael cynigydd ac eilydd o blith y cynghorwyr i'w henw fynd ymlaen i gyfarfod pwyllgor llawn o'r cyngor, lle bydd naill ai un neu ddau enwebai'n cael Gwobr Anrhydedd y Mwmbwls. Cyflwynir y wobr gan gadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls / y Pwyllgor Diwylliant yn ystod Gŵyl y Mwmbwls.

Bydd unrhyw gostau ariannol yn cael eu talu trwy drosglwyddo arian o gyllideb sydd wedi tanwario.

Ymadawodd y Cynghorydd Thomas â'r cyfarfod am 2.52pm

CT2411-07 **Diweddariad ar Naws y Mwmbwls**

Esboniodd y Cynghorydd Zhou y bydd y gystadleuaeth yn dod i ben yr wythnos hon ac, yn unol â phenderfyniad y mis diwethaf, bydd sesiwn adborth gyda'r Cynghorydd O'Neill yn cael ei chynnal unwaith y bydd seremoni wobrwyo'r gystadleuaeth wedi'i chwblhau.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cynghorydd Zhou yn rhoi adborth i'r pwyllgor ym mis Ionawr 2025 yn dilyn dyfarnu'r gwobrau i enillwyr y gystadleuaeth.

CT2411-09 **Ymwybyddiaeth ynghylch colli babanod**

Eglurodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, sut yr oedd wedi cael gwybod am ymwybyddiaeth ynghylch colli babanod a'r modd y trefnwyd i ran o Ostreme gael ei goleuo yn ystod cyfnodau arwyddocaol megis diwrnodau ymwybyddiaeth. Gellid hysbysebu digwyddiadau o'r fath drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Dylai'r gost fod o fewn £400 gyda chyllid yn cael ei ddarparu trwy drosglwyddo arian.

**CAM GWEITHREDU:** Claire Anderson i geisio dyfynbris o fewn saith diwrnod ar gyfer cost y goleuo.

**ARGYMHELLIAD:** Bod rhan o Ganolfan Ostreme yn cael ei goleuo yn ystod cyfnodau arwyddocaol i dynnu sylw at ymwybyddiaeth ynghylch colli babanod.

CT2411-10 **Digwyddiadau'r Nadolig**

Amlinellodd Claire Anderson yn gryno y digwyddiadau ar gyfer cyfnod y Nadolig, fel y nodir isod:-

- **Dydd Iau, 28 Tachwedd** o 4pm ymlaen – Nadolig yn y Mwmbwls. Cynnau'r goleuadau / cau'r ffordd
- **Dydd Gwener, 6 Rhagfyr** o 1.30pm i 4pm – Te prynhawn y Nadolig yn Neuadd Bentref Newton
- **Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr** o 12 i 2pm – Coffi'r Nadolig gyda ffrindiau
- **Dydd Iau, 12 Rhagfyr** o 1.30pm i 3.30pm yng Nghanolfan Ostreme – Hwyl Nadolig y Mwmbwls (Clwstwr Cymunedol Ystumllwynarth)
- **Dydd Gwener, 13 Rhagfyr** o 5pm i 7pm – Parti cymunedol West Cross, DJ, bwyd parti, gwneud torch ac ati
- **Dydd Gwener, 20 Rhagfyr** o 7pm i 10pm – Cwis Nadolig West Cross

CT2410-12 **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes a ganlyn oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** , oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

CT2410-13 **Gŵyl y Mwmbwls 2025 – sesiwn gaeedig**

Trafodaeth ar gynnydd Gŵyl y Mwmbwls 2025

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.13pm.**

**Cyfarfod nesaf ar 22 Ionawr 2025**